# Cwestiynau Cyffredin am Weinyddwyr y Prawf (Cymru)

## Prawf Maes TIMSS 2027, Chwefror – Mawrth 2026.

## Prif Astudiaeth PIRLS 2026, Mai–Mehefin 2026.

### Beth mae Gweinyddwr Prawf yn ei wneud?

Mae Gweinyddwr Prawf yn cynnal astudiaethau PIRLS a/neu TIMSS mewn ysgolion sy'n cymryd rhan, gan sicrhau bod y gweithdrefnau rhyngwladol yn cael eu dilyn yn llawn. Mae'n cydgysylltu ag ysgolion cyn diwrnod y prawf er mwyn sicrhau bod ysgolion yn barod i'w gynnal yn effeithlon ar y diwrnod. Mae'r astudiaethau yn cynnwys asesiadau disgyblion a holiadur a gaiff eu gweinyddu i'r dosbarth(iadau) dethol o ddisgyblion ar-lein ar gyfrifiaduron. Yn ogystal, mae ysgolion yn cael holiaduron i'w cwblhau gan y pennaeth, athrawon a rhieni/gofalwyr ymlaen llaw, a bydd yn rhaid i Weinyddwr y Prawf gadarnhau bod y rhain wedi cael eu cwblhau.

### Beth yw'r gwahaniaeth rhwng astudiaethau TIMSS a PIRLS?

Fel Gweinyddwr Prawf, mae eich rôl yr un peth yn y ddwy astudiaeth i raddau helaeth. Fel rhan o PIRLS a TIMSS yng Nghymru, byddwch yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac yn profi disgyblion Blwyddyn 5 (tua 10 oed). Nid oes angen arbenigedd mewn pwnc arnoch chi i gynnal y naill astudiaeth na'r llall. Ar gyfer PIRLS a TIMSS, dylech ddisgwyl treulio'r bore cyfan (rhwng tua 08:00 ac 13:00) yn yr ysgol, o'r adeg y byddwch yn cyrraedd ac yn gadael. Ceir crynodeb o amseriad y profion ar gyfer disgyblion a fydd yn cymryd rhan yn yr astudiaethau isod:

- PIRLS Blwyddyn 5: dau asesiad 40 munud + holiadur 30 munud
- TIMSS Blwyddyn 5: dau asesiad 35 munud + holiadur 30 munud

Dylid ystyried amser gosod a gorffen, yn ogystal ag egwylion rhwng y sesiynau y bydd Gweinyddwyr y Prawf a'r ysgolion yn cytuno arnynt cyn y diwrnod. Byddwch yn cael dadansoddiad llawn o amseriadau diwrnod y prawf yn yr hyfforddiant.

## Beth fydd y tâl?

Am gwblhau'r holl weithgareddau hyfforddi, gan gynnwys darllen deunyddiau a anfonir atoch, cwblhau cwisiau cyn yr hyfforddiant a bod yn bresennol mewn digwyddiad hyfforddiant byw (tua 5-6 awr), cewch dâl o £130.

Am ymweliadau ag ysgolion, cewch dâl ar gyfradd sefydlog o £195 am bob ymweliad, yn ogystal â threuliau cysylltiedig. Mae'r tâl am ymweliadau hefyd yn cynnwys amser teithio i'r ysgol ac oddi yno, a thasgau gweinyddol, megis siarad â'r ysgol cyn yr ymweliad, cwblhau gwaith papur ar y diwrnod a phostio'r gwaith papur hwnnw wedyn. Mae angen cwblhau'r tasgau hyn cyn ac ar ôl diwrnod yr ymweliad er mwyn sicrhau bod diwrnod y prawf yn mynd rhagddo'n ddidrafferth a bod pob cam wedi'i gwblhau.

Mae'r un ffioedd yn gymwys i astudiaethau TIMSS a PIRLS, a ph'un ai chi yw "Prif Weinyddwr y Prawf" ai peidio.  (Gweler y cwestiwn isod: A fyddaf yn ymweld ag ysgolion ar fy mhen fy hun?)

## Pryd byddaf yn cael fy nhalu?

Caiff eich tâl ei brosesu gan dîm Pearson o fewn wythnos i gwblhau'r gweithgaredd, ac fe ddylai gyrraedd eich cyfrif o fewn pedair wythnos i hynny. Argymhellir eich bod yn cyflwyno hawliadau am dreuliau yr aed iddynt wrth i chi fynd drwy bob wythnos o brofion.

## Ble byddaf yn gweithio?

Rôl symudol yw hon y mae teithio yn rhan annatod a hanfodol o'r disgrifiad swydd. Caiff eich holl dreuliau teithio eu had-dalu. Ein nod yw dyrannu ysgolion ledled Cymru o fewn radiws o 50 milltir i safle eich cartref. Fodd bynnag, yn eich ymateb Mynegi Diddordeb byddwn yn gofyn a allwch deithio ymhellach na hynny, gan y

bydd rhai ysgolion mwy anghysbell y bydd angen gwasanaethau Gweinyddwyr Prawf arnynt.

## A oes angen i mi allu siarad Cymraeg?

Nac oes, ond byddai'n fuddiol. Mae ysgolion yn gwneud cais am iaith pan fyddant yn cyflwyno eu disgyblion ar gyfer yr astudiaethau. Gall ysgolion ddewis bod eu holl ddisgyblion yn sefyll y prawf yn Gymraeg, bod rhai ohonynt yn gwneud neu ddim un ohonynt. Caiff Gweinyddwyr Prawf dwyieithog eu dyrannu i ysgolion sy'n gwneud cais i'w holl ddisgyblion, neu rai ohonynt, sefyll y prawf yn Gymraeg. Mewn rhai achosion, caiff unigolyn dwyieithog a siaradwr Saesneg yn unig eu dyrannu i ysgol lle mae un dosbarth yn sefyll y prawf yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg.

## Faint o amser fydd angen i mi ei ymrwymo?

Mae'r ymrwymiad amser ar gyfer y ddwy astudiaeth yn debyg. Caiff asesiadau mewn ysgolion eu cynnal o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod cyfnod y profion:

- TIMSS: 2 Mawrth i 27 Mawrth 2026 [I'w gadarnhau]
- PIRLS: 6 Mai i 19 Mehefin 2026

Bydd y diwrnod yn yr ysgol yn para rhwng tua 08:00 a 13:00. Caiff y rhan fwyaf o ymweliadau eu cynnal yn y bore ond weithiau bydd ysgolion yn dewis sesiwn yn y prynhawn, er enghraifft pan fydd gan ysgol nifer cyfyngedig o gyfrifiaduron a bod angen iddi gynnal y prawf mewn dwy sesiwn. Caiff amserlen lawn y diwrnod ei hamlinellu yn ystod yr hyfforddiant. Yn ogystal ag amser yn yr ysgol, bydd angen i chi ystyried amser teithio i'r ysgol ac oddi yno, a'r amser a gaiff ei dreulio ar weithgareddau gweinyddol cyn ac ar ôl y prawf. Gofynnwn i Weinyddwyr Prawf sicrhau eu bod ar gael am dri diwrnod llawn yr wythnos drwy gydol y cyfnod.

## Faint o ysgolion gaiff eu dyrannu i mi?

Bydd nifer yr ysgolion a gaiff eu dyrannu i chi yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys eich argaeledd penodol o gymharu ag ysgolion yn eich rhanbarth, ac

mewn perthynas â Gweinyddwyr Prawf eraill sydd ar gael. Bydd cydweddoldeb iaith yn effeithio ar yr ysgolion a gaiff eu dyrannu i chi hefyd. Bydd ffactorau megis ysgolion yn newid dyddiad eu prawf a Gweinyddwyr Prawf eraill yn tynnu'n ôl hefyd yn effeithio ar nifer yr ymweliadau y bydd angen i chi eu cwblhau. Nid yw nodi y byddwch ar gael bob diwrnod yn golygu y bydd angen i chi ymweld ag ysgol bob diwrnod, ond bydd yn ei gwneud yn fwy tebygol y cewch eich paru ag ysgolion yn eich ardal, gan y bydd dyddiadau eu prawf yn cyd-fynd â'ch argaeledd.

## Sut y byddwch yn gwybod ar ba ddyddiau rwyf ar gael i ymweld ag ysgolion?

Cyn pob cyfnod profion, byddwn yn casglu calendr manwl o'r dyddiau rydych ar gael ac nad ydych ar gael i ymweld ag ysgolion. Mae hyn yn llywio'r ymarfer dyrannu felly mae'n bwysig ei fod mor gywir â phosibl. Os oes gennych ymrwymiad rheolaidd ar ddiwrnod neu ddiwrnodau penodol, caiff y wybodaeth hon ei chofnodi yn ystod yr ymarfer hwn.

## A fyddaf yn ymweld ag ysgolion ar fy mhen fy hun?

Ar gyfer ysgolion lle bydd un dosbarth yn unig yn cael ei brofi, chi fydd yr unig Weinyddwr Prawf. Os bydd dau ddosbarth yn cael eu profi, caiff dau Weinyddwr Prawf eu neilltuo ac, yn yr achos hwn, caiff un ohonynt ei enwebu'n Brif Weinyddwr y Prawf. Prif Weinyddwr y Prawf fydd yn cyfathrebu â'r ysgol i ddechrau a bydd yn rhannu'r wybodaeth hon â Gweinyddwr arall y Prawf. Bydd yr holl gyfrifoldebau eraill yr un peth. Mewn ysgolion lle bydd un Gweinyddwr Prawf yn unig, chi fydd Prif Weinyddwr y Prawf i bob pwrpas.

## Ar gyfer sawl ysgol y byddaf yn Brif Weinyddwr y Prawf?

Ar gyfer ysgolion lle caiff dau ddosbarth eu profi, byddwn yn ceisio dosbarthu rôl Prif Weinyddwr y Prawf fel bod pob Gweinyddwr Prawf yn rhannu'r dasg hon yn gyfartal. Gan ei bod yn debygol y bydd gennych gymysgedd o ysgolion y byddwch

yn ymweld â nhw ar eich pen eich hun neu gyda Gweinyddwr Prawf arall, byddwch yn Brif Weinyddwr y Prawf mewn mwy o ysgolion gan y byddwch yn mabwysiadu'r rôl hon yn naturiol ar gyfer yr ysgolion y byddwch yn ymweld â nhw ar eich pen eich hun.

## A allaf newid fy nyraniad o ysgolion?

Yn dilyn yr hyfforddiant, byddwch yn cael dyraniad drafft ac, ar y pwynt hwnnw, cewch y cyfle i wneud sylwadau o ran a yw'n addas ai peidio. Os bydd eich amgylchiadau yn newid yn ystod cyfnod y profion, gofynnwn i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl. Drwy gydol cyfnod y profion, byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl os bydd newidiadau (e.e. os bydd ysgol yn tynnu'n ôl neu'n gofyn am newid dyddiad y prawf).

Yn ystod cyfnod y profion, efallai y bydd ysgolion yn newid eu dyddiad, efallai y bydd amgylchiadau Gweinyddwyr Prawf eraill yn newid ac efallai y bydd angen ailymweld â rhai ysgolion. Am y rhesymau hyn, mae'n debygol iawn y byddwn yn cysylltu â chi i gynnig ymweliadau ychwanegol i'w hychwanegu at eich dyraniad o ysgolion ar ôl i chi gael eich rhestr gychwynnol.

## Pa hyfforddiant y byddaf yn ei gael?

Mae cwblhau hyfforddiant i Weinyddwyr y Prawf yn un o ragofynion y rôl, a bydd yn cymryd tua 5-6 awr i gyd (ar gyfer pob astudiaeth).

Cewch eich hyfforddi o bell a bydd yn cynnwys cymysgedd o waith hunan-astudio a sesiwn fyw/holi ac ateb y bydd yn rhaid i chi fod yn bresennol ynddi:

- Darllen y llawlyfr i Weinyddwyr Prawf a'r atodiadau cysylltiedig.
- Cwblhau modiwlau hyfforddiant ar-lein a'r cwisiau ategol (caiff cyfraddau cwblhau a chywirdeb eu monitro)
- Bod yn bresennol mewn sesiwn hyfforddiant fyw ar-lein yn para tua 2.5 awr. Mae dyddiadau'r hyfforddiant i'w cadarnhau, ond mae'r wybodaeth ddangosol fel a ganlyn:

- TIMSS. Digwyddiad hyfforddiant ar-lein ganol mis Chwefror 2026
- PIRLS. Digwyddiad hyfforddiant ar-lein ganol mis Ebrill 2026.

## A oes angen gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gyda gwiriad o'r rhestr wahardd ar gyfer plant)?

Oes. Mae'n rhaid i Weinyddwyr y Prawf feddu ar dystysgrif gyfredol a dilys o wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gweithio gyda phlant. Os nad oes gennych dystysgrif gyfredol, cewch eich ardystio fel rhan o'r broses recriwtio. Caiff holl ddeunydd ardystio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ynghyd â dull adnabod priodol, eu gwirio yn ystod galwad fideo ar-lein byr gydag aelod o Dîm Cymorth TIMSS/PIRLS.

## A fyddaf yn cael contract ar gyfer TIMSS a PIRLS?

Mae'n bosibl y cewch gynnig contract ar gyfer naill ai TIMSS neu PIRLS, neu'r ddau, yn dibynnu ar ffactorau gwahanol fel eich argaeledd a'r galw yn eich rhanbarth daearyddol. Bydd angen contract ar wahân i gymryd rhan ym mhob astudiaeth. Mae'n rhaid i chi dderbyn a dychwelyd y contract(au), a bod wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus, cyn y caiff ymweliadau ag ysgolion eu dyrannu i chi.

Mae'r contract yn cynnwys gwybodaeth bwysig am eich rôl, gan gynnwys gwybodaeth ymarferol am daliadau a threuliau, ac mae'n nodi eich bod yn cytuno i gynnal cyfrinachedd yr holl ddeunyddiau.

## A fydd angen gwneud unrhyw waith marcio?

Nid yw marcio/sgorio yn rhan o rôl Gweinyddwr y Prawf. Caiff y gwaith o sgorio ymatebion agored myfyrwyr ei gynnal ar ôl pob cyfnod profion. Rydym yn recriwtio sgorwyr sydd â phrofiad pwnc a/neu brofiad o farcio'r meysydd pwnc. Os cewch eich recriwtio'n llwyddiannus i rôl Gweinyddwr Prawf ac yr hoffech fynegi diddordeb mewn bod yn sgoriwr, ac os ydych yn meddu ar y profiad perthnasol,

rhowch wybod i ni drwy e-bostio naill ai PIRLSSupport@pearson.com neu TIMSSSupport@pearson.com yn dibynnu ar y maes pwnc yr hoffech ei sgorio.

## Os bydd angen mwy o wybodaeth arnaf, â phwy y dylwn gysylltu?

Dylech gyfeirio cwestiynau pellach am rôl Gweinyddwr y Prawf (ar gyfer naill ai TIMSS, PIRLS neu'r ddau) i PIRLSSupport@pearson.com.

Gallwch hefyd ffonio 020 7010 2101 (o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am– 4pm).